# Rhwydwaith Rheng Flaen Cymru: Blwyddyn 1

**Mae Rhwydwaith Rheng Flaen Cymru – a sefydlwyd ym mis Medi 2020 – wedi bod yn weithredol am flwyddyn. Yn ystod y cyfnod hwn mae wedi sicrhau bod barn a phrofiadau gweithwyr cymorth ym maes digartrefedd a thai yn cael gwrandawiad ac yn derbyn ymateb yn ystod y pandemig COVID-19. Mae'r adroddiad byr hwn yn rhoi crynodeb o weithgareddau'r Rhwydwaith, a sut y mae wedi dylanwadu ar bolisi.**

## Digwyddiad i lansio Rhwydwaith Rheng Flaen Cymru



- Lansiwyd ym mis Rhagfyr 2020
- Mynychwyd y digwyddiad ar-lein gan bron i 200 o bobl
- Cafwyd araith gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, a oedd hefyd yn ateb cwestiynau gan weithwyr rheng flaen
- Cafwyd neges fideo oddi wrth Michael Sheen

## Sut mae'n gweithio




- Cynhaliwyd cyfarfodydd rhanbarthol anffurfiol ar-lein yn chwarterol, gan ddefnyddio'r un ôl troed â'r rhanbarthau Grant Cymorth Tai:
  - Gogledd Cymru
  - Canolbarth a Gorllewin Cymru
  - Gorllewin Morgannwg
  - Cwm Taf Morgannwg
  - Bro Morgannwg a Chaerdydd
  - Gwent

## Y rownd gyntaf o gyfarfodydd anffurfiol

- Chwefror 2021 – rhoddwyd y ffocws ar iechyd a lles y staff
- Cafwyd 50 o fynychwyr dros 5 o gyfarfodydd ar-lein
- Ar gyfartaledd, rhoddodd y mynychwyr sgôr o 8.8 allan o 10 i'r digwyddiadau

## Gwersi o'r Rheng Flaen #1: Iechyd a lles y staff yn ystod y pandemig COVID-19




- Cynhyrchwyd adroddiad oedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer darparwyr gwasanaeth, comisiynwyr a Llywodraeth Cymru
- Roedd y themâu'n cynnwys y canlynol:
  - Mae'r pandemig wedi effeithio ar bawb ohonom mewn gwahanol ffyrdd
  - Cafwyd rhai pethau positif a rhai pethau negyddol
  - Rhoddwyd croeso i hyblygrwydd
  - Mae cael caniatâd a sicrwydd gan reolwyr yng nghyd-destun gofalu am les y staff yn bwysig iawn
  - Mae rhwydweithiau a thimau cryf yn gwbl allweddol

## Yr ail rownd o gyfarfodydd anffurfiol

- Ebrill / Mai 2021 – rhoddwyd y ffocws ar newidiadau i'r amgylchedd gwaith wrth i gyfyngiadau COVID gael eu llacio
- Cafwyd 56 o fynychwyr dros 6 o gyfarfodydd ar-lein
- Ar gyfartaledd, rhoddodd y mynychwyr sgôr o 9.0 allan o 10 i'r digwyddiadau




## Gwersi o'r Llinell Flaen #2: Newidiadau i'r Amgylchedd Gwaith yn dilyn y Cyfnod Clo

- Cynhyrchwyd adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwasanaethau, comisiynwyr, Llywodraeth Cymru, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Roedd y themâu'n cynnwys y canlynol:
  - Profiadau cymysg o ddychwelyd i'r swyddfa
  - Gwahanol lefelau o ymgynghori gyda gweithwyr rheng flaen
  - Dim troi'n ôl – dymuniad i gadw hyblygrwydd a modelau hybrid
  - Pwysigrwydd gofod a chysylltedd
  - Roedd gweithio'n rhithiol yn arbennig o anodd i aelodau newydd o'r staff

**"Mae'n galonogol i gwrdd â gweithwyr eraill fel chi sy'n wynebu problemau tebyg, a gwybod nad lleisiau unig yn yr anialwch ydyn ni – mae Cymorth yn mynd â'r problemau at Lywodraeth Cymru ar ein rhan."**

## Y drydedd rownd o gyfarfodydd anffurfiol

- Mehefin / Gorffennaf 2021 – rhoddwyd y ffocws ar beth mae ar weithwyr rheng flaen ei eisiau gan Lywodraeth newydd Cymru
- Cafwyd 62 o fynychwyr dros 6 o gyfarfodydd ar-lein
- Ar gyfartaledd, rhoddodd y mynychwyr sgôr o 9.3 allan o 10 i'r digwyddiadau
- Mae Adroddiad yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd, a chaiff ei anfon at Lywodraeth Cymru ac Aelodau o'r Senedd

## Y bedwaredd rownd o gyfarfodydd anffurfiol

- Medi 2021 – rhoddwyd y ffocws ar beth mae ar weithwyr rheng flaen ei eisiau gan Lywodraeth newydd Cymru
- Trafodaethau gydag Aelodau o'r Senedd:
  - Plaid Cymru: Heledd Fychan, Mabon ap Gwynfor, Sioned Williams, Peredur Owen Griffiths
  - Llafur Cymru: Jenny Rathbone, Jack Sargeant, John Griffiths
  - Ceidwadwyr Cymru: Joel James, Altaf Hussain
- Cynhwyswyd y Gweinidog Cysgodol dros Dai a Chynllunio, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid y Senedd a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
- Cafwyd 70 o fynychwyr dros 4 o ddigwyddiadau ar-lein






Cydnabod fel gweithwyr allweddol a'u cynnwys yn y grŵp blaenoriaeth 2 ar gyfer brechlyn

## Dylanwadu ar Lywodraeth Cymru

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi bod yn gwrando ar farn a phrofiadau gweithwyr rheng flaen yn ystod ein cyfarfodydd chwarterol, ac yn codi'r materion hyn gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill sy'n gwneud penderfyniadau. O ganlyniad, rydym wedi ymgyrchu'n llwyddiannus dros y canlynol:

- Cydnabod gweithwyr cymorth ym maes digartrefedd a thai fel '**gweithwyr allweddol**' a'u bod felly'n gymwys i dderbyn **PPE** a llefydd **gofal plant**.
- Cynnwys gweithwyr cymorth ym maes digartrefedd a thai yng **Nghynllun Gwella Tâl Salwch Statudol** Llywodraeth Cymru i gefnogi gweithwyr yn ystod y pandemig.
- Cynnwys gweithwyr cymorth ym maes digartrefedd a thai yn y **grŵp blaenoriaeth 2 ar gyfer derbyn brechlyn**.
- Cynnwys yn 2il iteriad **Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol £500** Llywodraeth Cymru.
- Ymrwymiad gan Lywodraeth newydd Cymru i gynnwys gweithwyr cymorth ym maes digartrefedd a thai yn yr **ymrwymiad cyflog byw** ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.
- Cynnydd o **£40miliwn** yn y Grant Cymorth Tai yng nghyllideb Cymru am 2021/22 a chodiad cyflog i lawer o weithwyr am y tro cyntaf ers blynyddoedd.

Cynnwys yn y Cynllun Gwella Tâl Salwch Statudol

Cynnydd o £40m yn y Grant Cymorth Tai am 2021/22

Cynnwys yn 2il iteriad y cynllun cydnabyddiaeth ariannol

**Diolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn ein digwyddiadau Rhwydwaith Rheng Flaen Cymru eleni!**

"Ro'n i'n teimlo bod fy marn i'n bwysig, a'u bod yn gwrando arna i, ac mae'n bosib y bydd rhywbeth yn digwydd o ganlyniad i hynny."

"Rydych yn teimlo eu bod yn gwrando arnoch chi ac y bydd eich sylwadau'n cael eu cymryd o ddifri. Mae'n gwneud i mi deimlo bod fy marn i'n cael ei gwerthfawrogi."